**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID**

# Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

## Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

   *14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*

   *(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

## Ystyriaeth

2. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2009.

3. Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan Dai Lloyd AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, ac atebodd gwestiynau gan yr Aelodau. Ystyriodd yr Aelodau hefyd yr ymatebion a gafwyd gan y Pwyllgor ar y Mesur yn ei ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig.

## Beth fyddai'r Mesur arfaethedig yn ei wneud

4. Nod sylfaenol y ddeddfwriaeth arfaethedig yw sicrhau ymgysylltiad ehangach cymunedau â phenderfyniadau o ran gwaredu cae chwarae. Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth iddynt ystyried gwaredu caeau chwarae, i gynnal ymgynghoriad a pharatoi a chyhoeddi datganiad o effaith ar ei gyfer.

5. Byddai'r Mesur arfaethedig yn arwain at gostau ar gyfer awdurdodau lleol wrth:

   - baratoi datganiad o'r effaith;
   - cynnal yr ymgynghoriad; a
   - hysbysu'r bobl a'r sefydliadau perthnasol pan benderfynir symud ymlaen gyda chynnig.

6. Byddai hefyd yn arwain at gostau ar gyfer ymatebwyr i'r ymgynghoriad – yn arbennig y sefydliadau 'statudol' a restrir yn yr atodlen i'r Mesur arfaethedig.

**Asesu'r costau**

7. Awdurdodau lleol yng Nghymru fyddai'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau hyn ac, wrth baratoi'r Mesur arfaethedig, aeth yr Aelod sy'n gyfrifol amdano ati i geisio barn awdurdodau lleol o ran beth fyddai'r costau tebygol. Fodd bynnag, dim ond ychydig o awdurdodau a ymatebodd i hyn a dim ond Cyngor Bwrdeistref Tor-faen a roddodd amcangyfrif manwl. Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd fod y costau'n anodd eu rhagweld ar hyn o bryd, a dywedodd y ddau awdurdod olaf eu bod yn debygol o fod yn arwyddocaol. Fodd bynnag, byddai hynny'n cael ei gydbwyso gan pa mor aml y ceid cynigion i gael gwared ar gaeau chwarae. Awgrymodd Cyngor Sir Ddinbych, ar yr amod bod y diffiniad o'r term "gwaredu" yn cael ei dynhau, y gallai hyn fod cyn lleied â dau gae chwarae.

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig yn nodi'r costau ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd, fel:

| | £ | |
|---|---|---|
| Paratoi datganiad o'r effaith a datganiad penderfynu | 10,000 | yn ogystal â chostau argraffu a dosbarthu |
| Paratoi Astudiaeth Lawn o Chwaraeon a Hamdden i fod yn sail i Asesiad o Fannau Agored | 35,000 | os oes angen un ac os nad oes un eisoes ar gael |
| Costau ar gyfer ymgyngoreion statudol | 2,900 – 5,300 | wedi'u seilio ar ddau ymateb (nid gan awdurdodau lleol) |

9. Dywedodd Dai Lloyd wrth y Pwyllgor[1] mai Tor-faen yw'r trydydd cyngor bwrdeistref sirol lleiaf yng Nghymru ac mae'n bosibl nad yw ei brofiadau yn nodweddiadol ar gyfer yr holl gynghorau sir eraill yng Nghymru. Dywedodd nad yw gwaredu cae chwarae sy'n perthyn i gyngor yn ddigwyddiad cyffredin. Dywedodd ei fod yn credu bod 24 o gaeau chwarae dan fygythiad ar hyn o bryd yng Nghymru a bod y rhain wedi bod o dan fygythiad ers sawl blwyddyn. Nododd amcangyfrif ar gyfer pob awdurdod, a hynny ar sail asesiad Sir Ddinbych, sef gwaredu dau gae chwarae pob pum mlynedd.

10. Ar sail y gost debygol o £10,000 am bob gwarediad, gyda dau warediad ym mhob awdurdod bob pum mlynedd, roedd ei amcangyfrifon yn awgrymu ffigur o tua £100,000 ar gyfer yr holl awdurdodau yng Nghymru[2]. Yn ogystal, roedd ffyrdd o leihau'r gost honno a hyd yn oed ei lleihau i ddim[3]. Pwysleisiodd Dai Lloyd ei fod yn bwysig nodi mai'r cyfanswm oedd tua £100,000 neu lai, yn hytrach na'n rhywbeth sy'n arwain at filiynau o bunnoedd neu'n rhywbeth nad oes modd rhoi pris arno[4].

[1] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraffau 22-23
[2] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraffau 23 a 30
[3] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraff 23
[4] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraff 23

11. Ym marn Dai Lloyd, dylid fod wedi ysgwyddo llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi asesiad o'r effaith eisoes gan fod hyn yn cynnwys cyfuniad o wybodaeth o'r Strategaeth Iechyd a Lles a'r Asesiad o Fannau Agored sy'n cynnwys nifer y caeau chwarae a chyfleusterau hamdden lleol[5]. [Cofnod y Trafodion para 57] Dylai fod gan awdurdodau eisoes Strategaeth Iechyd a Lles ac, er nad yw Asesiadau o Fannau Agored yn orfodol o dan TAN 16, mae'r canllawiau ar gyfer hyn wedi bod mewn grym ers cryn amser[6].

12. Ers i Dai Lloyd roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, mae CLILC wedi cyflwyno rhagor o dystiolaeth[7] lle nodir bod 18 o awdurdodau lleol (o'r 22) wedi ymateb i gais am wybodaeth am Asesiadau o Fannau Agored. O'r rhain, cynhaliwyd Asesiad o Fannau Agored gan 13 o awdurdodau lleol. Roedd dau arall wrthi'n eu cynnal ac roedd y tri arall yn diweddaru eu cynlluniau datblygu lleol ac yn edrych ar TAN 16 a gyhoeddwyd yn ddiweddar am ganllawiau. Ymddengys fod hyn yn cadarnhau barn Dai Lloyd na fyddai'r rhain yn arwain at gost ychwanegol sylweddol.

13. Dywedodd Dai Lloyd y dylid ystyried y costau sy'n gysylltiedig ag anfon llythyrau at aelwydydd unigol fel uchafswm oherwydd gellir cynnwys y rhain gyda mathau eraill o lythyrau fel cylchlythyrau awdurdodau lleol.[8]

**Ffynhonnell gyllido**

14. Mae yn gonfensiwn wedi'i sefydlu (Cytundeb Essex-Jones) na fydd y Llywodraeth yn rhoi unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau lleol heb ddarparu'r arian ychwanegol sy'n angenrheidiol iddynt ar gyfer bodloni'r ymrwymiadau hyn. Nododd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ei ymateb i'r ymgynghoriad[9] nad oes darpariaeth yng nghyllidebau Llywodraeth y Cynulliad i gyllido goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig ar gyfer y cyrff cyhoeddus dan sylw. Nododd hefyd y gallai anawsterau godi pe bai cymunedau a chynghorau tref yn gorfod ysgwyddo'r costau, a hynny oherwydd eu cyllidebau cyfyngedig.

15. Ym marn Dai Lloyd, nid oedd y cyllid hwnnw yn broblem gan nad oedd bron unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r cynigion[10]. Roedd yn hapus bod awdurdodau yng Nghymru, yn y gwraidd, eisoes yn gwneud y gwaith hwn neu y dylent fod wedi'i wneud[11]. Nid oedd o'r farn y byddai'r effaith ar gynghorau tref a chymuned yn broblem gan nad hwy yw'r awdurdodau cynllunio ac, mae cynghorau cymuned, yn arbennig, yn tueddu i fod yn eithriadol o amddiffynnol o'r caeau chwarae yn eu cymunedau[12].

[5] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraff 57
[6] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraffau 25, 30 a 36
[7] Ymateb i'r ymgynghoriad PF4a
[8] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraff 30
[9] Ymateb i'r ymgynghoriad PF8, paragraff 3.2
[10] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraffau 25 a 30
[11] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraff 36
[12] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2009, paragraff 38

**Casgliad**

16. Nid edrychodd y Pwyllgor Cyllid yn fanwl ar yr amcanion a oedd yn sail i'r Mesur arfaethedig. Byddai Aelodau yn naturiol yn cefnogi'r nod sylfaenol o annog gweithgareddau corfforol er mwyn lleihau gordewdra a hybu byw'n iach a lles. Fodd bynnag, nid ystyriodd a oedd Mesur Cynulliad yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

17. Mae'r Pwyllgor wedi edrych ar y costau a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig. Mae hefyd wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar y Mesur.

18. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ei bod yn ymddangos bod y Mesur arfaethedig yn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 23.18 (vi) i ddarparu'r 'amcangyfrifon gorau' o'r costau y byddai'r Mesur yn arwain atynt a'r cyfnodau amser ac ati. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r wybodaeth orau sydd ar gael yn yr achos hwn yn ddigonol. **Mae diffyg ymateb i'r ceisiadau am wybodaeth o ran costau gan lywodraeth leol yng Nghymru yn destun pryder penodol i'r Pwyllgor. Cafodd awdurdodau eu gwahodd i gyfrannu pan gafodd y Mesur arfaethedig ei baratoi ac eto gan y Pwyllgor ar y Mesur a sefydlwyd i'w ystyried. Mae awdurdodau lleol yn barod iawn i gwyno ynghylch cynigion nad ydynt yn hoff ohonynt, felly nid yw'n dderbyniol nad ydynt yn fodlon darparu gwybodaeth a fydd yn helpu i lunio polisïau pan ofynnir amdani. Yn ogystal, mae'r cynigion yn y Mesur arfaethedig yn eithaf syml ac mae'n anodd deall pam y byddai'n anodd i awdurdod penodol roi amcangyfrif eithaf cywir**.

19. **O dan yr holl amgylchiadau, rhaid i'r Pwyllgor ddod i'r casgliad bod yr amcangyfrifon a ddarperir yn y Mesur arfaethedig yn wan iawn.** Nododd yr Aelodau honiadau Dai Lloyd y byddai gan awdurdod da eisoes y wybodaeth angenrheidiol i baratoi asesiad o'r effaith ac y byddai modd cydgysylltu llawer o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ymgynghori ar hyn a rhannu casgliadau a thrwy hynny osgoi gormod o gost gydag ymgyrchoedd postio eraill. **Ar sail hyn, noda'r Pwyllgor ei gasgliad na fydd y gost flynyddol yn fwy na £100,000, wedi'i rannu rhwng tua 4 neu 5 awdurdod ac mai uchafswm fyddai hwn ac y byddai modd ei leihau'n sylweddol. Er hynny, wrth gydnabod ei ymdrech i gael gwybodaeth well, mae'n rhaid iddo nodi hefyd fod y costau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth wan iawn ac nad ydynt lawer mwy na dyfaliad.**

20. **Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi ac yn derbyn ei asesiad, sef os yw'r costau ar y lefel hon, dylai fod yn bosibl eu cynnwys yng nghyllideb bresennol yr awdurdodau lleol. Yn ogystal, byddai disgwyl iddo fod yn bosibl i'r costau ddod o gyllideb y datblygiad neu'r prosiect cyffredinol ar gyfer gwaredu caeau chwarae.**

21. **Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r costau i ymgyngoreion o ran paratoi ymatebion i'r ymgynghoriad ac nad oes tystiolaeth fod y rhain yn debygol o fod yn feichus.**

22. **Ar sail hyn, a chyda rhywfaint o bwyll, daw’r Pwyllgor Cyllid i’r casgliad nad oes unrhyw reswm ariannol dros beidio â pharhau â’r Mesur arfaethedig ond mae hefyd yn annog y Pwyllgor ar y Mesur i sicrhau y caiff y costau hyn eu hasesu’n fwy effeithiol cyn bod y Mesur arfaethedig yn cael ei gymeradwyo’n derfynol gan y Cynulliad Cenedlaethol.**

**Angela Burns**
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid**